# Rheoli Plâu yn Integredig (IPM)
## – enghreifftiau a ddefnyddir mewn glaswelltir

aic agricultural industries confederation




1. Ceisiwch gyngor gan agronomegydd ar Gofrestr Broffesiynol BASIS (Cynllun Arolygu Safonau Agrocemegol Prydain).
2. Ceisiwch gynnal asesiad blynyddol o adeiladwaith y pridd a draeniad i benderfynu a oes angen draeniau newydd.
3. Profwch pH y pridd a chydbwysedd maethynnau i sicrhau'r tyfiant gorau posibl i'r glastir. Anelwch at samplu pob maes bob pum mlynedd. Bydd glaswelltir cystadleuol yn lleihau tyfiant chwyn.
4. Ailhadwch pan fo chwyn lluosflwydd yn gwneud y glastir yn anghynhyrchiol neu pan nad yw'r glastir bellach yn hyfyw. Pan nad oes modd ailhadu'n llwyr, ystyriwch or-hadu er mwyn bywiogi'r glastir a gwneud y mwyaf o'i botensial. Dewiswch fathau sy'n gwrthsefyll afiechydon.
5. Osgowch bridd noeth, yn enwedig pan fydd da byw yn ymgasglu wrth fynedfeydd caeau ac o amgylch cafnau bwydo. Ceisiwch hau dros dir glas ar unrhyw rannau moel i helpu i atal chwyn rhag sefydlu a symudwch y cafnau bwydo yn rheolaidd.
6. Cofiwch asesu poblogaethau chwyn. Cerddwch ar draws y caeau wrth i laswellt ddechrau tyfu a defnyddio % y lefelau chwyn i lywio penderfyniadau rheoli.
7. Sicrhewch fod porthiant a fewnforir yn rhydd o hadau chwyn er mwyn osgoi lledaeniad chwyn ar y fferm.
8. Sicrhewch fod tail yn rhydd o hadau chwyn a'ch bod yn bodloni'r holl reolau / meini prawf ar gyfer storio a thaenu tail. Argymhellir cwblhau a gweithredu cynllun rheoli tail.
9. Gwiriwch a yw eich fferm mewn Parth Perygl Nitradau a dilynwch reolau'r llywodraeth.
10. Chwistrellwch chwyn unigol neu defnyddiwch sychwr chwyn i leihau'r angen i drin caeau cyfan a thrwy hynny leihau'r defnydd o blaladdwyr.
11. Wrth ddefnyddio bag cefn, sicrhewch fod y plaladdwr wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio, bod y bag cefn wedi'i raddnodi, a bod y gweithredwr yn dal y dystysgrif cymhwysedd berthnasol ar gyfer rhoi plaladdwyr gyda bag cefn (PA6) yn ogystal â PA1. Gwiriwch eich bod yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir.
12. Bydd angen gwaredu ar chwyn neu eu tocio cyn i hadau chwyn ddod yn hyfyw.
13. Ceisiwch reoli niferoedd da byw er mwyn osgoi gorbori / tanbori a sathru, sy'n galluogi chwyn i ymsefydlu.
14. Darllenwch label y plaladdwr ac unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru i sicrhau bod y cynnyrch cywir yn cael ei roi ar y cnwd cywir ar yr amser cywir. Byddwch yn ymwybodol o gyfnodau pori ar ôl chwistrellu. Dylai chwyn fod yn tyfu'n weithredol ac ar y cam twf cywir.
15. Ceisiwch reoli pob cwrs dŵr i osgoi erydiad pridd a llygredd dŵr.
16. Byddwch yn ymwybodol o unrhyw ofynion parth clustogi lle na chaniateir chwistrellu ar gyfer gwrychoedd, coed a chyrsiau dŵr.
17. Gall cynnwys codlysiau, e.e. meillion ar laswellt, leihau mewnbynnau nitrogen.
18. Nodwch bwyntiau llygredd posibl ar y fferm lle gallai pridd, a allai gludo ychydig bach iawn o blaladdwyr ond digon i fod yn ganfyddadwy, lifo i gyrsiau dŵr.

**Mae cynhyrchion diogelu planhigion** yn un enw a roddir ar gemegau a ddefnyddir i reoli chwyn, plâu a chlefydau. Fe'u gelwir hefyd yn **blaladdwyr, chwynladdwyr, pryfleiddiaid, ffwngleiddiaid a chwistrellau**. Rhaid iddynt gael eu cymhwyso gan rywun sy'n dal y tystysgrifau cymhwysedd perthnasol.

*Delwedd yn cynrychioli rheoli plâu yn integredig trwy gydol y flwyddyn ffermio.*

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cydffederasiwn Diwydiannau Amaethyddol
Rhif ffôn: 01733 385230 E-bost: enquiries@agindustries.org.uk
www.agindustries.org.uk

The Voluntary Initiative